ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #186
08 Mehefin 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol

Dysgwyr ar drywydd addysg o'r radd flaenaf yn y Ganolfan Ragoriaeth newydd

Mae cenhedlaeth o weithwyr rheilffordd ar y ffordd i lwyddiant wrth i gyfleuster peirianneg rheilffyrdd Coleg y Cymoedd gwerth £3.08 miliwn yng Ngholeg y Cymoedd gael ei gwblhau.
Mwy>>>

Cyfleoedd lleoliad gwaith rhyngwladol ar gyfer dros 270 o fyfyrwyr

Dyfarnwyd EUR612,000 o gyllid Erasmus+ i Goleg Merthyr Tudful roi cyfle i fyfyrwyr addysg bellach i gymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith dramor.
Bydd y cyllid yn galluogi'r coleg i adeiladu ar ei raglen profiad gwaith rhyngwladol llwyddiannus, gan ddarparu cyfleoedd i 272 o fyfyrwyr o naw maes galwedigaethol - Adeiladwaith, Cerbydau Modur, Peirianneg, Busnes, Technoleg Gwybodaeth, Gofal Plant, Teithio a Thwristiaeth, Gwallt a Harddwch - i deithio i'r Almaen a chymryd rhan mewn profiad gwaith yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
Mwy>>>

Hwb i Aberteifi wrth i Goleg Ceredigion dderbyn £300,000 ar gyfer Canolfan Gymraeg newydd

Mae Coleg Ceredigion i dderbyn grant o £300,000 oddi wrth Llywodraeth Cymru yn benodol i ddatblygu Canolfan Gymraeg aml bwrpas yn Aberteifi.
Caiff Canolfan "Y Man a'r Lle" ei hadeiladu ar gampws y coleg yn Aberteifi gan greu canolbwynt i weithgareddau

addysgiadol, cymdeithasol a diwylliannol cyfrwng Cymraeg.
Mwy>>>

Datganiadau'r Arweinyddiaeth

Pennaeth Coleg Gwent Jim Bennett yn cyhoeddi ymddeoliad

Pennaeth Coleg Gwent, Jim Bennett, wedi cyhoeddi ei fwriad i ymddeol yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf ar ôl pum mlynedd o wasanaeth i'r Coleg a de ddwyrain Cymru.
Mwy>>>

Safle wag: Prif Weithredwr ColegauCymru

Mae ColegauCymru am benodi Prif Weithredwr newydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am arwain ColegauCymru i sicrhau bod safbwyntiau'r sector yn cael eu clywed, bod manteision addysg bellach yn cael eu hyrwyddo a bod buddion y sector yn cael eu cynrychioli'n effeithiol. Bydd deiliad y swydd yn cyflawni hyn drwy gydweithio ag arweinwyr y sector a rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig Llywodraeth Cymru.
Dyddiad cau: hanner dydd, Llun 15 Mehefin 2015.
Mwy>>>

Colegau o Ansawdd

Partneriaeth Ddysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent yn derbyn adroddiad gwresog gan Estyn

Mae Partneriaeth Ddysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent wedi derbyn adroddiad gwych gan Estyn, yn dilyn arolygiad diweddar.
Mwy>>>

Coleg Sir Benfro yn hyrwyddo democratiaeth ddigidol

Mae Coleg Sir Benfro wedi cael ei gydnabod fel arweinydd o ran hyrwyddo democratiaeth ddigidol, gyda Sarah Hoss o'r coleg yn cael gwahoddiad i siarad ar y pwnc yn y digwyddiad TEDx cyntaf i'w gynnal yng ngorllewin Cymru.
Mwy>>>

Staff Coleg Gwent ar restr fer ar gyfer gwobr genedlaethol

Mae dau aelod o staff o Goleg Gwent ar restr fer Gwobrau Addysgu Ysbrydoledig, a redir gan y darparwr recriwtio New Directions Education.
Mwy>>>

Dilyniant Myfyrwyr

Lle yn Ysgol Haf Prifysgol Rhydychen i fyfyrwyr Coleg Gwent

Mae myfyriwr o Goleg Gwent wedi ennill lle yn Ysgol Haf Prifysgol Rhydychen i astudio mathemateg yr haf hwn.
Mwy>>>

Dewis myfyriwr Safon Uwch ar gyfer ysgol haf yr UDA

Mae myfyriwr Safon Uwch yng Ngholeg Sir Gâr, Anthony Clarke, wedi cael ei ddewis i wario wythnos ym Mhrifysgol Yale yn dilyn ei gais i Raglen yr UD Ymddiriedolaeth Sutton a Chomisiwn Fulbright yr UD-DU. Mae Anthony yn un o 150 o fyfyrwyr a ddewiswyd o blith 1,600 o ymgeiswyr ac mae'n un o saith myfyriwr yn unig o Gymru a fydd yn cymryd rhan.
Mwy>>>

Llywydd Undeb y Myfyrwyr Newydd ar gyfer Coleg Gwent

Mae myfyrwyr Coleg Gwent wedi ethol Llywydd Undeb y Myfyrwyr newydd yn ddiweddar.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Dathlu Llwyddiant

Gwobrau VQ

Nos yfory, 9 Mai yng Ngwesty Dewi Sant a Sba, Bae Caerdydd, bydd Gwobrau VQ 2015 yn cael eu cynnal yng nghwmni Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad, cwmnïau, dysgwyr, darparwyr hyfforddiant a gwesteion.
Mae'r Gwobrau VQ, sy'n rhan o ddathliadau Diwrnod VQ, yn dathlu cyflawniad galwedigaethol. Maent yn darparu cyfle i arddangos gwerth cymwysterau galwedigaethol i unigolion, cyflogwyr, a'r gymdeithas ehangach.

Ar y rhestr fer ar gyfer **Dysgwr VQ y Flwyddyn**:
- James Pepper
- Serena Torrance
- Michael Whippey
- Paul Wiggins
- Simon McCall
- Casey Coleman

Ar y rhestr fer ar gyfer **Cyflogwr VQ y Flwyddyn**:
- Little Inspirations
- Dailycer UK
- Spirit Hair Team

Mwy>>>

Myfyrwyr gwyddoniaeth yn ennill Gwobr Aur CREST

Mae dau grŵp o fyfyrwyr Gwyddoniaeth Safon Uwch o Goleg Gŵyr Abertawe wedi ennill y wobr lefel uchaf - Gwobr Aur CREST - gan Gymdeithas Wyddoniaeth Prydain am eu gwaith gyda chwmnïau lleol.
Mwy>>>

Gwneuthurwr Cacennau yn Cipio Gwobr Arall

Mae myfyriwr addurno cacennau o Goleg Llandrillo Grwp Llandrillo, Menai Hayley Roberts, wedi ennill y wobr aur yn y gystadleuaeth "Cacen Cymru" i ychwanegu at yr arian gipiodd yn y Gystadleuaeth "Cacennau Rhyngwladol" yn y Ganolfan Arddangosfa Genedlaethol ym Mirmingham ym mis Tachwedd 2014.
Mwy>>>

Enillwyr cystadlaethau sgiliau cyfrifiadura

Arweiniodd cystadleuaeth gyfrifiadura y rownd ragbrofol ranbarthol at fod saith o fyfyrwyr **Coleg Sir Gâr** yn ennill y prif fedalau am eu sgiliau TG yn y categorïau Technegydd Cymorth TG, Technegydd Isadeiledd Rhwydwaith a Datrysiadau Meddalwedd TG ar gyfer Busnes.

Bu i dau fyfyriwr o **Goleg Caerdydd a'r Fro**, James Holloway a Alexandru Chites, ennill arian ac efydd yn y drefn honno yn y rhagbrofion Technegydd TG Microsoft WorldSkills UK.

Roeddent yn cystadlu am le yn y Sioe Sgiliau yn Birmingham - sioe gyrfa mwyaf o'i fath yn y DU sy'n tynnu sylw at rai o sgiliau gorau'r wlad, ac sy'n gweithredu fel y rownd derfynol cenedlaethol ar gyfer cystadlaethau WorldSkills UK.
Mwy o Goleg Sir Gar
Mwy o Goleg Caerdydd a'r Fro

Bill o Goleg Caerdydd a'r Fro yn taro deuddeg gyda Selby y Pencampwr Byd

Mae gan Bill Reynolds, Darlithydd yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, reswm da dros ddathlu buddugoliaeth y bocsiwr Lee Selby ym Mhencampwriaethau Pwysau Plu y Byd yr IBF – roedd yn rhan o'r tîm a'i hyfforddodd i fuddugoliaeth.
Mwy>>>

Arddangosiadau: Cyflwyniadau Coleg a Sioeau Dysgwyr

Ennill ym myd chwaraeon

Y chwaraewr rygbi rhyngwladol, enillydd medal yng Ngemau'r Gymanwlad, cyflwynydd a fusnes, Non Evans MBE, oedd siaradwr gwadd noson wobrwyo chwaraeon **Coleg Gŵyr Abertawe**, a oedd yn dathlu dewis y dysgwyr-cricedwr Aneurin Donald ar gyfer taith Awstralia y Rhaglen Datblygu'r Lloegr (EDP), enill Tlws Cynghrair Colegau Elite URC, cofnodi ennill dwbl Pêl-droed Colegau Cymru dros Ysgolion Awstralia, ac ennill twrnamaint Pêl-rwyd Colegau Cymru a thwrnamaint Yr Urdd.
Mwy o Goleg Gwyr Abertawe

Pennaeth recriwtio Academi Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, Martin Evans, oedd siaradwr gwadd **Coleg Sir Gâr** yn ei

noson wobrwyo chwaraeon i ddathlu gwaith academïau chwaraeon y coleg a'u chwaraewyr.
Mwy>>>

Dirprwy Weinidog yn Gwobrwyo Prentisiaid Gorau

Daeth dros 100 o wahoddedigion ynghyd i Seremoni Cyflwyno Gwobrau Dysgu Seiliedig ar Waith Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gynadledda Orme View yng Ngholeg Llandrillo, lle derbyniodd y prentisiaid gorau o bob cwr o Ogledd Cymru wobrau gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.
Mwy>>>

Myfyrwyr CCAF yn 'Blodeuo' yn y Sioe Gelf ddiwedd blwyddyn

Mae myfyrwyr Celf a Dylunio, Dylunio 3D a Ffasiwn a Dillad Coleg Caerdydd a'r Fro wedi dangos eu gwaith yn 'Blodeuo', sef arddangosfa yn Theatr y Sherman.
Mwy>>>

Avant Garde Spectacular

Cymrodd dros ddeugain o fyfyrwyr trin gwallt lefel 3 y Coleg Merthyr Tudful at y catwalk i arddangos eu sgiliau trin gwallt ffantastig fel rhan o Avant Garde Spectacular diwedd blwyddyn.
Mwy>>>

Partneriaeth Adeiladu Coleg ac Ysgol

Fel rhan o'r cynllun partneriaeth Ysgol Uwchradd Aberteifi a Choleg Ceredigion, gwobrwywyd dau ddisgybl am eu gwaith ar y cwrs adeiladu BTEC yng Ngholeg Ceredigion. Fe'u cyflwynwyd gan gadeirydd Gorllewin Cymru Sefydliad Siartredig yr Adeiladwyr, Wyn Harries.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Coleg Ceredigion yn croesawu un o gyfarwyddwr cerdd gorau'r West End

Mae un o gyfarwyddwyr cerdd teithiol y West End, yr enwog Peter Golding, wedi cynnal dosbarth meistr undydd ar gyfer myfyrwyr Celfyddydau Perfformio Coleg Ceredigion.
Mwy>>>

Mewnwelediad proffesiynol i actio teledu

Mae'r digrifwraig a'r actores deledu enwog, Lizzie Roper, sydd wedi serennu mewn cyfres o sioeau teledu, gan gynnwys Hollyoaks a The Bill, wedi rhoi cyfrif uniongyrchol o'r diwydiant i myfyrwyr y celfyddydau perfformio yng

Ngholeg Ceredigion.
Mwy>>>

I'r dyddiadur

Sioe Radd Ffasiwn 2015

Eleni cynhelir sioe radd ffasiwn Coleg Sir Gâr yn cymryd lle yn Newtown House, Llandeilo ar 19 mehefin.
Mwy>>>

Myfyrwyr i sefydlu oriel dros dro

Mae myfyrwyr celf Coleg Gwent yn gwahodd y cyhoedd i weld eu gwaith mewn arddangosfa y penwythnos hwn, mewn oriel gelf pop-up yng Nghanol Dinas Casnewydd.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB